

SUT I ADNABOD GWIRFODDOLWYR

Mae cydnabod y rôl amhrisiadwy y mae gwirfoddolwyr yn ei chwarae yn ein gêm a'n cymuned yn hanfodol. Rydym yn gwybod y bydd y rhai sydd eisoes yn rhoi help llaw yn eich clwb yn gwneud hynny am nifer o resymau. Mae'n bwysig bod pob gwirfoddolwr yn cael ei gydnabod yn rheolaidd am ei ymdrechion, waeth pa mor fawr neu fach.

Bydd deall sut gallwch chi wneud hyn o fewn amgylchedd eich clwb eich hun yn eich cefnogi i recriwtio a chadw eich gwirfoddolwyr yn y ffordd orau bosibl.



1. EI WNEUD YN FLAENORIAETH

Mae cydnabod gwaith gwirfoddolwyr yn hollbwysig ac mae gwneud yn siŵr ei fod yn bwnc pwysig yn eich clwb yn allweddol. Y ffyrdd y gellid cyflawni hyn yw drwy ei ychwanegu fel eitem reolaidd at agenda eich pwyllgor neu drwy gydnabod eich gwirfoddolwyr ar eich cyfryngau cymdeithasol neu galendrau digwyddiadau cymdeithasol.

2. CYDNABOD YN RHEOLAIDD

Mae neges ar gyfryngau cymdeithasol unwaith y tymor, neu ddiolch ar ôl sesiwn hyfforddi, yn ddechrau gwyh i gydnabod eich gwirfoddolwyr, ond pam stopio ar hynny? Mae'n bwysig eich bod yn eu cydnabod drwy'r tymor a bod y gydnabyddiaeth yn ddigwyddiad rheolaidd.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael y cydbwysedd yn iawn, yn ogystal â bod yn rheolaidd, dylai'r gydnabyddiaeth fod yn ddiwyll hefyd er mwyn osgoi unrhyw ddiolch 'diystyr'.

3. AMRYWIO PETHAU

Ewch ati i amrywio'r gydnabyddiaeth rydych yn ei rhoi rhwng bod yn ffurfiol ac yn anffurfiol, gan gofio nad oes rhaid iddo fod yn ddiolch bob amser. Gallai fod yn holi sut maen nhw'n dod ymlaen yn y rôl neu hyd yn oed sut maen nhw yn bersonol, pan nad ydynt yn y clwb. Neu efallai yr hoffech chi ddiolch iddyn nhw mewn ffordd fwy ffurfiol drwy dynnu sylw atyn nhw ar gyfryngau cymdeithasol / gwefan. Cadwch y gydnabyddiaeth yn ffres ac yn annisgwyl.

4. EI WNEUD YN YSTYRLON

Does neb eisiau derbyn ryw hanner diolch, ac nid yw gwirfoddolwr eisiau diolch heb wybod pam ei fod yn cael y diolch hwnnw. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ddiffuant, yn ystyrlon a'ch bod yn cydnabod yr hyn maent yn ei wneud neu'r hyn maent wedi'i wneud i'r clwb, yr aelodau, a'r gymuned ehangach.

5. CYDNABOD YR UNIGOLYN

Does dim byd yn fwy teimladwy na chydabod gwaith ac ymroddiad unigolyn. Gall canolbwyntio ar y canlyniad terfynol yn unig arwain at wirfoddolwyr yn teimlo ac yn meddwl y byddant ond yn cael eu cydnabod os ydynt yn 'llwyddiannus' ac ni ddylai hyn fod yn wir. Bydd pawb ar eu siwrnai eu hunain ac felly dylid cydnabod eu cerrig milltir personol.



6. CYDNABOD A GWOBRWYO'N BRIODOL

Gall hyd y gefnogaeth a roddir gan wirfoddolwr benderfynu mewn rhai achosion sut rydych yn ei gydnabod ac yn ei wobrwyo. Gall profiad mwy gwerthfawr fod yn addas ar gyfer unigolyn sydd wedi rhoi cyfnod hirach o gefnogaeth, o gymharu â rhywun sydd newydd ddechrau ar ei siwrnai wirfoddoli gyda chi. Mae'r ddau wirfoddolwr, waeth beth fo hyd y gefnogaeth, yn hynod bwysig i'ch clwb, ond mae'n bwysig sicrhau bod y gydnabyddiaeth a'r wobwr yn cyfateb i'r ymrwymiad a roddir.

7. CYSONDEB YN ALLWEDDOL

Unwaith y bydd eich clwb wedi penderfynu sut byddwch yn cydnabod ymdrechion eich gwirfoddolwyr, mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod hyn yn digwydd bob tymor. Os yw hynny'n bosibl, ceisiwch osgoi trefnu seremoni wobrwyo neu ddigwyddiad mawreddog sy'n anghynaliadwy yn ariannol, oherwydd gallai hyn gael effaith negyddol a siomi gwirfoddolwyr yn y dyfodol.

8. YMATEB YN GADARNHAOL I GYFLAWNIADAU

Pan fydd gwirfoddolwr wedi cyrraedd nod neu wedi cyflawni rhywbeth anhygoel, naill ai yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r clwb neu heb fod yn rhan o'r clwb, ceisiwch ei gydnabod cyn gynted â phosibl. Gall oedi gyda'ch cydnabyddiaeth wneud eich diolchgarwch yn llai diffuant.

9. EI WNEUD YN BERSONOL

Os bydd eich clwb yn penderfynu cydnabod drwy wobrau, ceisiwch sicrhau eu bod yn berthnasol i'r unigolyn. Bydd adnabod pob un o'ch gwirfoddolwyr a'u diddordebau yn eich helpu wrth chwilio am ffordd arbennig o ddweud diolch.

10. CADW COFNOD

Mae gan bob clwb restr hanes, mawr neu fach, ac yn aml mae hyn yn gysylltiedig â llwyddiannau chwaraeon ar y cae fel buddugoliaethau cynghrair a chwpan. Beth am edrych ar sut gallwch chi gadw rhestr anrhydeddau o'r holl wirfoddolwyr ddoe a heddiw sydd wedi camu i'r adwy ac wedi cefnogi'r clwb. Gwell fyth os gallwch chi gysylltu eu hamser yn eich clwb gyda chyflawniad.

